# CYNLLUN GWERS AR GYFER

# SUT MAE LLYGREDD AER YN EFFEITHIO AR Y CORFF DYNOL?

ASTHMA+ LUNG UK

**Iechyd a Lles**

## Amcanion dysgu

Lechyd a lles:

- Gallaf esbonio'r ymddygiad, yr amodau a'r sefyllfaoedd sy'n effeithio ar fy iechyd corfforol a'm lles a, thrwy fy ngweithredoedd, gallaf ymateb i'r rhain a/neu eu rheoli er mwyn lleihau'r risg o niwed i mi fy hun ac i eraill.

Gwyddoniaeth a thechnoleg:

- Gallaf esbonio'r bygythiadau i ddatblygiad ac iechyd organebau a disgrifio sut mae effeithiau'r rhain yn cael eu lleihau gan amddiffynfeydd naturiol, ataliadau a thriniaethau naturiol.

## Datblygu sgiliau

- Rhannu meddyliau a barn
- Cwestiynu ffynonellau gwybodaeth
- Cyfiawnhau barn

### Adnoddau sydd eu hangen

- Cyflwyniad Gwers
- Taflen Gychwynnol (ei rhoi ar ddesgiau cyn dechrau'r wers)
- Taflen Waith Gwahanol Fathau o Lygredd
- Sut Mae Llygredd Aer yn Effeithio ar y Corff Dynol? Taflen Wybodaeth
- Taflen Labelu Corff Dynol Llygredd Aer
- Taflen Gloi
- Tasg Dysgu yn y Cartref (yn ôl yr angen)

| Geirfa allweddol | Dysgu blaenorol |
| --- | --- |
| Llygredd, ysgyfaint, gwenwynig, gronynnau, nitrogen deuocsid, llygryddion, anadlol, micronau, tanwydd ffosil, osôn, amlygiad, arwyddocâd, bregus, data. nitrogen ocsid, sylffwr deuocsid, carbon monocsid, tracea, strôc, clefyd yr ysgyfaint, clefyd cardiofasgwlaidd, bygythiad, monitor aer. | Nid oes angen dysgu ymlaen llaw er y bydd rhai disgyblion yn ddi-os yn ymwybodol o'r system resbiradol a'r effaith mae pobl yn ei chael ar y blaned a'r amgylchedd. Gwneud cysylltiadau â gwybodaeth flaenorol, lle bo hynny'n briodol, i helpu i ddarparu cyd-destun ehangach ac adeiladu ar ddealltwriaeth disgyblion o iechyd a llygredd yr ysgyfaint. |

| Amser | Gweithgaredd Athrawon | Addasiadau |
|---|---|---|
| 5 munud | Defnyddiwch y **Cyflwyniad Gwers** i gyflwyno'r wers ac annog myfyrwyr i fynd ymlaen yn syth â'r gweithgaredd cychwynnol, gan ddefnyddio'r taflenni cychwynnol rydych chi wedi'u rhoi iddynt. Gofynnwch i fyfyrwyr geisio nodi'r digwyddiadau ddigwyddiadau yn y broses gyfnewid nwy yn y drefn gywir trwy rifo'r gwahanol gamau. Defnyddiwch sleid 4 i fynd trwy'r drefn gywir.<br><br>Ewch ymlaen i gyflwyno'r amcanion dysgu ar gyfer y wers hon ar sleid 5. | Esboniwch eirfa yn y cyflwyniad yn ôl yr angen. Ewch ati i wahodd ac ateb cwestiynau drwy'r cyfan i sicrhau dealltwriaeth y disgyblion. |
| 10 munud | Defnyddiwch sleid 6 i bwysleisio pwysigrwydd ac amlder anadlu mewn bywyd dynol. Rhannwch y **Daflen Waith Mathau o Lygredd** a defnyddio sleid 7 i gyflwyno'r prif fathau o lygredd aer. Dylai'r myfyrwyr baru enw'r llygredd â'i ddisgrifiad. Defnyddiwch sleid 8 i fynd trwy'r atebion cywir. | |
| 20 munud | Defnyddiwch sleid 9 i esbonio pa mor gyffredin yw llygredd aer a'r effaith mae'n ei gael ar farwolaethau ym Mhrydain a'r byd. Yna, rhannwch **Daflenni Gwybodaeth Sut Mae Llygredd Aer yn Effeithio ar y Corff Dynol?** a'r **Taflenni Labelu Corff Llygredd Aer.** Dylai myfyrwyr ddarllen y wybodaeth yn ofalus ac yna labelu'r diagram corff i esbonio sut mae gwahanol rannau o'r corff yn cael eu heffeithio. | Mae hyn yn rhoi cyfle i atgyfnerthu dealltwriaeth anatomegol trwy drafod neu esbonio lleoliad organau amrywiol. |
| 10 munud | Defnyddiwch sleid 11 i esbonio'r gwahanol resymau pam mae plant mewn fwy o berygl o lygredd aer. Yna gosodwch y dasg o ofyn i'r myfyrwyr esbonio pa reswm maen nhw'n meddwl yw'r pwysicaf ar gyfer y rhagdueddiad cynyddol hwn. Rhannwch atebion a thrafodwch fel dosbarth. | Gellid defnyddio dewiswyr enwau ar hap yma i ennyn ymatebion gan y myfyrwyr. |
| 10 munud | Defnyddiwch sleid 12 i esbonio pam mae monitorau yn ddefnyddiol i amddiffyn plant ac eraill rhag llygredd aer. Gosodwch y dasg i'r myfyrwyr o nodi ble y byddent yn gosod monitorau aer ar safle'r ysgol ac esbonio'r dewis o'u lleoliadau. Rhannwch atebion a thrafodwch yr effaith bosibl y gallai monitorau aer ei chael ar ansawdd aer yn yr ysgol. | |
| 5 munud | Ailedrychwch ar yr amcanion dysgu ar sleid 13 a rhannu'r **Daflen Gloi** a **Tasg Dysgu yn y Cartref** (os oes angen). Dylai myfyrwyr ddarllen drwy'r termau allweddol a nodi un sy'n sefyll allan o bob grŵp. Gofynnwch iddyn nhw roi rheswm manwl pam ei fod yn un sy'n sefyll allan. | Pwysleisiwch bwysigrwydd rhoi esboniad manwl gywir am eu dewis o un sy'n sefyll allan. |

## Myfyrdodau gwers / camau nesaf / nodiadau athrawon

### Cyfleoedd asesu

- A all y myfyrwyr nodi'r gwahanol gamau o sut mae'r corff dynol yn echdynnu ocsigen o'r aer?
- A all y myfyrwyr ddisgrifio'r gwahanol fathau o lygredd aer?
- A all y myfyriwr esbonio sut mae llygredd aer yn effeithio ar y corff dynol?
- A all y myfyrwyr nodi ffyrdd o leihau effeithiau llygredd ar iechyd yr ysgyfaint?

### Awgrymiadau ar gyfer dysgu yn y dyfodol

- Ymchwilio sut mae llygredd aer yn arwain at fwy o anghydraddoldeb mewn cymdeithas.
- Gosod monitorau ansawdd aer yn yr ysgol i nodi'r lefelau llygredd mewn gwahanol safleoedd ar dir yr ysgol a monitro canlyniadau.

### Cyfleoedd dysgu yn y cartref

- Gall myfyrwyr ddefnyddio'r Dasg **Dysgu yn y Cartref** i ysgrifennu paragraff am lygredd aer sy'n cynnwys geiriau allweddol amrywiol mewn trefn benodol. Rhaid i'r paragraff hefyd gynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chynnwys yn y wers felly mae angen elfen o ymchwil.